



Ysgol Glan y Môr, Ffordd Caerdydd, Pwllheli, Gwynedd. LL53 5NU



Pennaeth / Headteacher - Mrs Menai Jones B.A.

Gorffennaf 17eg, 2018.

Annwyl Rieni / Gwarcheidwaid,

Ar ddiwedd blwyddyn brysur o waith ysgrifennaf i ddiolch i chi fel rhieni am eich cefnogaeth i'r ysgol.

Rydym newydd gynnal wythnos datblygu sgiliau hynod o werthfawr ar gyfer y disgyblion; wythnos lle rhoddwyd cyfle i ddisgyblion gael nifer o brofiadau gwahanol a chyfle i ddatblygu amrywiol sgiliau mewn dull hwyliog ond addysgiadol. Roedd yn bleser eu gweld yn mentro ar brofiadau newydd ac yn profi llwyddiant mewn dulliau llai traddodiadol na mewn dosbarth. Mae hi'n wythnos brysur i'r disgyblion a'r athrawon, ond credaf ei fod yn ychwanegu llawer at y profiadau difyr sydd i'w cael yma yn yr ysgol.

Yn wahanol i 2017 -18 ni fydd yna lawer o newidiadau yn ein staffio o fis Medi 2018 ymlaen. Yn rhinwedd y ffaith ein bod yn paratoi ar gyfer datblygu cwricwlwm newydd ar gyfer y newidiadau mawr sy'n digwydd yn 2022 mi fydd yna beth newid yn ein darpariaeth dros y blynyddoedd nesaf er mwyn ein galluogi i ymateb yn llawn i feysydd dysgu a phrofiad y cwricwlwm newydd. Rydym yn hyderus fod gennym y staff a'r adnoddau gorau i wynebu her Cwricwlwm newydd i Gymru i ddarparu'r addysg orau bosib i'n disgyblion.

Mae eich cefnogaeth i waith yr ysgol yn holl bwysig . Un ffordd bendant y gallwch chi ein cefnogi ar ddechrau mis Medi fydd drwy sicrhau fod eich plentyn / plant chi yn gwisgo'r wisg ysgol lawn yn barchus bob diwrnod. Rwyf wedi eich llythyru yn weddol ddiweddar yn mynegi pryder bod carfan fechan o rieni yn caniatáu i'w plant ddod i'r ysgol heb y wisg briodol.

Rydym yn cadw'r wisg mor syml a chost effeithiol â phosib i bawb, yn y gobaith bod hwn yn ei gwneud hi'n haws i chi sicrhau fod eich plentyn yn gwisgo'r wisg gywir gyda balchder bob diwrnod.

Carwn bwysleisio'r angen i ddewis trowsus ysgol addas. Llauer rhy aml rydym yn gorfod atgoffa rhieni a disgyblion nad yw Jeans, Jeggings na Leggings , er eu bod yn ddu, yn dderbyniol fel gwisg ysgol. Trowsus plaen, du , syml yw'r disgwiliad. Mae'n bur debyg y bydd trowsusau ysgol plaen llauer rhatach na'r trowsusau mwy ffasiynol! Byddwn yn gweithredu yn gadarn i fynnu gwisg o safon, yn enwedig gan y disgyblion sy'n mynnu gwrthod cydymffurfio, o fis Medi ymlaen. Gallwn osgoi llawer o ddrwg deimlad os wneuch chi fel rhieni sicrhau fod eich plentyn chi yn cadw at ein rheolau gwisg.

Hoffwn atgoffa pob un mai esgidiau plaen du neu trainers plaen du (gyda gwadan ddu nid gwyn neu unrhyw liw arall) yw'r esgidiau derbyniol ar gyfer yr ysgol. Unwaith eto, mae'r rhain yn aml lawer rhatach na'r esgidiau mwy lliwgar, ffasiynol!

Mae prydlondeb i'r ysgol yn fater sydd angen sylw gan rhai disgyblion. Byddwn yn gweithredu system o gadw disgyblion i mewn amser egwyl a chinio os ydynt yn gyson hwyr i'r ysgol a hynny heb unrhyw reswm. Mae sefydlu arferion da ar gyfer prydlondeb a phresenoldeb yn faterion mae'r ysgol yn credu'n gryf ynddynt. Mae diffyg yn y ddau faes yn debygol o arwain at ddiffyg addysgol ac felly ni allwn eu hanwybyddu. Targed presenoldeb pob disgybl yn y flwyddyn addysgol nesaf fydd 96%+.

Yn olaf, hoffwn eich atgoffa y bydd unrhyw ffonau symudol sy'n amharu ar wersi yn cael eu cadw yn ddiogel, ac fe fydd disgwyl i chi fel rhieni ddod i'r ysgol i'w casglu. Llauer rhy aml yn ddiweddar mae amser dysgu yn cael ei darfu arno oherwydd problemau gyda ffonau symudol. Os yw'r problemau yn parhau wedi i unrhyw ddisgybl dderbyn rhybudd teg, byddwn yn gofyn i chi sicrhau fod y ffonau yn cael eu cadw adref yn barhaol.

O gael eich cefnogaeth chi i'r manion bethau uchod, gallwn ddefnyddio ein hamser i roi sylw i'r peth pwysicaf un, sef darparu'r addysg orau posib i'r plant.

Bydd yr ysgol yn ail agor i ddisgyblion ar ddydd Mercher, Medi 5ed, 2018.

Gan ddyuno gwyliau braf i chi fel teuluoedd,

Yn gywir,

Mrs Menai Jones
Pennaeth



FFÔN / PHONE 01758 701244

FFACS / FAX 01758 701310

E-BOST / E-MAIL pennaeth@glanymor.gwynedd.sch.uk

GWEFAN / WEBSITE www.glanymor.gwynedd.sch.uk

